

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>14eg Chwefror 2023</b>
<b>Aelod Cabinet perthnasol:</b>	<b>Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cynllun Arbedion 2023/24 – 2024/25</b>

### Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- a) Gymeradwyo'r arbedion effeithlonrwydd a restrir yn Atodiad A (£6.4m) fel gwedd gyntaf o arbedion y gallwn eu defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2023/24 – 2024/25.
- b) Gomisiynu gwaith pellach i sefydlu'r wedd nesaf o arbedion a thoriadau (oddeutu £1.6M - £2.2M) cyn gosod cyllideb 2024/25
- c) Gwneud darpariaeth o £1.6M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm a gwireddu y cynllun arbedion effeithlonrwydd
- ch) Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion hwn wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol a nodir isod.

### Cefndir

1. Mae'r lefelau chwyddiant eithriadol presennol, yn arbennig yr effaith ar gyflogau a chostau ynni, ynghyd â'r cynnydd sylweddol yn y galw am rhai gwasanaethau megis digartrefedd oherwydd yr argyfwng tai cenedlaethol, yn golygu fod costau'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol mewn cyfnod byr.
2. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer lefel chwyddiant, nac ychwaith ein gwaith o amcanu'r galw am wasanaethau, yn rhoi lle i ni obeithio y bydd pethau'n gwella yn y tymor byr.
3. Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cefnogaeth refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 (cynnydd o 7%, felly cryn dipyn yn is na lefel chwyddiant) ac wedi derbyn amcan o'r Grant ar gyfer 2024/25 (3% yw'r cyfartaledd

enedlaethol tebygol) sydd yn debygol o fod gryn bellter islaw'r hyn fyddwn ei angen i gynnal gwasanaethau.

4. Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo ambell i adran yn gorwario, yn bennaf oherwydd anallu i gyflawni cynlluniau arbedion y gorffennol a chynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau.
5. Yn dilyn ystyriaeth fanwl i'r ffactorau uchod, oni bai fod newid arwyddocaol cyn cyhoeddi setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/25, rydym yn gallu cyfrifo y bydd ein bwllch ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesa oddeutu £12.4M.
6. Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn yr un cyfarfod a'r adroddiad hwn, a fydd yn amlinellu sut ydym am ymdopi gydag effaith y bwllch yma wrth osod ein cyllideb ar gyfer 2023/24. Bydd y gyllideb yn cynnwys cyfuniad o orfod cynyddu'r dreth Cyngor, lleihau cyllidebau ysgolion a newid ein polisi ad-dalu benthyciadau. Bydd hefyd yn cynnwys yr angen i gyflawni arbedion mewn cyllidebau ar draws y Cyngor a phwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu sut yr ydym wedi mynd ati i ganfod yr arbedion hyn a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'w gweithredu, nid yn unig er mwyn gallu gosod cyllideb 2023/24 ond hefyd cyllideb y flwyddyn ddilynol.
7. Bydd Aelodau eisoes yn ymwybodol fod lefelau chwyddiant cenedlaethol a'r pwysau yn y maes digartrefedd wedi codi'n gyflym iawn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol sydd wedi arwain at orwariant eleni oddeutu £7M. Gan nad oedd cyfle i gynllunio ymlaen llaw o gwbl ar gyfer y bwllch hwn, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.
8. Yn yr un modd, nid ydym ychwaith wedi cael cyfnod rhagbaratoi rhesymol ar gyfer ceisio darganfod arbedion i allu ymdopi ag effaith hyn oll ar ein cyllideb yn 2023/24 ac felly rydym wedi gorfod mynd ati yn llawer fwy cyflym nag y byddem wedi ei ddymuno i geisio sefydlu Cynllun Arbedion fel un ffordd o gyfrannu at ein bwllch ariannol.
9. Bu i ni gychwyn ar y gwaith o sefydlu Cynllun Arbedion ar gychwyn Tachwedd drwy ofyn i bob Pennaeth Adran gyflwyno cynigion o fewn eu meysydd gwaith a fyddai'n arwain at arbedion neu doriadau ariannol. Rhoddwyd cyfarwyddyd fod angen i bob uned waith gyflwyno cynigion gyfwerth â 20% o'u cyllideb craidd er mwyn i'r Aelodau Cabinet fynd ati i flaenoriaethu'r cyfan gan geisio darganfod y cynigion oedd yn cael yr effaith lleiaf ar drigolion Gwynedd.
10. Cyflwynwyd 320 o gynigion gyda chyfanswm eu gwerth oddeutu £23M. Fe aseswyd pob un o'r rhain unai gennyf i neu gan un o'r Cyfarwyddwyr gan osod pob cynllun yn y categorïau canlynol er mwyn helpu'r Aelodau i allu mynd ati i flaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynig unigol.

Arbediad effeithlonrwydd	Dim angen y gyllideb, neu'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol gyda dim effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd
Arbediad effeithlonrwydd	Gwasanaeth yn parhau, ond bydd y cyhoedd yn gweld gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r hyn mae nhw wedi arfer ei weld (cynyddu ffioedd yn fan hyn hefyd)
Toriad	Y gwasanaeth yn dal i gael ei gyflawni ond yn arafach, i safon is neu ar raddfa llai na'r hyn mae'r cyhoedd wedi arfer ei dderbyn. Risg isel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd.
Toriad	Y gwasanaeth yn dod i ben gydag oblygiadau negyddol clir i drigolion Gwynedd, gan gynnwys risg uchel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd.

11. Bu i ni hefyd gynnal asesiad cyfreithiol ag asesiad ariannol lefel uchel ar bob cynllun unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gynlluniau oedd yn bosibl eu cyflawni.
12. Pan yn cyflwyno eu cynigion, roedd yr Adrannau yn cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb. Gofynnwyd hefyd i bob Pennaeth Adran flaenoriaethu eu cynigion gan adnabod y rhai fyddai'n cael lleiaf o effaith ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.
13. Dros gyfnod o dri diwrnod bu i bob Pennaeth Adran gyflwyno eu cynigion i weithdai o Aelodau Cabinet, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu ynghyd ag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn y Cyngor.
14. Drwy gydol y broses hon ein prif nod oedd ceisio darganfod cynigion fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar drigolion Gwynedd pe byddent yn cael eu gweithredu. Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau, ac felly mae'n destun balchder fod y broses hon wedi arwain at allu darganfod oddeutu £6.4M o arbedion effeithlonrwydd y gallwn eu gweithredu.
15. Roedd consensws bras ymysg yr aelodau a gymerodd ran yn y gweithdai, i benderfynu pa gynlluniau y dylid eu blaenoriaethu. Y casgliad oedd fod posib i ni weithredu oddeutu £6.4M o'r cynigion dros y ddwy neu dair mlynedd nesaf, yn unol â phroffil bras fel a ganlyn:

2023/24	2024/25	2025/26
£3.1M	£2.86M	£0.45M

16. O ran y cynigion sydd wedi eu blaenoriaethu i'w gweithredu, gellir gweld rhestr gyflawn o'r rhain yn Atodiad A. Yn fras gellir eu gosod yn y grwpiau canlynol o ran y math o gynllun sydd dan sylw:

1	<b>Lleihau cyllidebau sy'n tanwario o ganlyniad i ffordd newydd o weithio wedi'r cyfnod Covid</b> Mae costau teithio a chostau argraffu yn enghreifftiau o faterion lle mae'r gwariant wedi gostwng yn sgil trefniadau i weithio'n hybrid a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol yn hytrach na wyneb yn wyneb.	£1.2M
2	<b>Arbedion effeithlonrwydd - addasu trefniadau gweithio.</b> Er mwyn cyflawni arbedion yn y meysydd yma byddwn yn newid y ffordd yr ydym yn mynd ati i ddarparu'r gwasanaeth a'i ddarparu mewn ffordd mwy effeithlon.	£1.7M
3	<b>Cytuno i geisiadau gan fudiadau eraill a throsglwyddo adnoddau.</b> Bydd hyn yn rhoi gwell rheolaeth i fudiadau sydd eisoes yn defnyddio yr adnoddau hyn.	£40k
4	<b>Mewnoli trefniadau mewn amryw feysydd</b> Bydd hyn yn golygu darparu rhai gwasanaethau ein hunain yn hytrach na defnyddio contractwyr allanol e.e. Lladd chwyn	£0.4M
5	<b>Cynyddu incwm</b> Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r ffi am wasanaethau Ymgynghoriaeth Gwynedd	£0.9M
6	<b>Dileu swyddi gwag / Lleihau cyllidebau staffio i fynd efo'r gwir gost.</b> Mae rhai gwasanaethau wedi ymdopi am gyfnodau hir heb lenwi swyddi swyddfa gefn heb effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau ac awgrymir parhau gyda'r trefniadau hynny ac ildio'r cyllidebau.	£0.3M
7	<b>Arbedion o ganlyniad i newid systemau neu ddefnydd amgen o systemau</b> Gwell defnydd o offer a thechnoleg er mwyn gweithio yn fwy effeithlon gan gynnwys datblygu systemau a proffilio anghenion defnyddwyr i resymoli trwyddedau meddalwedd	£0.2M
8	<b>Defnyddio ffynonellau eraill i ariannu</b> Uchafu'r defnydd o grantiau sydd ar gael i ariannu swyddi a gweithgareddau heb effeithio y gwasanaeth.	£0.4M
9	<b>Lleihau cyllidebau hyfforddiant mewn rhai meysydd</b> Mae costau wedi lleihau o ganlyniad i ffyrdd newydd o ddarparu hyfforddiant e.e. e-fodiwlau.	£50k
10	<b>Ailstrwythuro o fewn gwasanaeth i weithio yn fwy effeithlon.</b> Ailedrych ar strwythurau rhai gwasanaethau sydd yn golygu gwneud pethau yn fwy effeithlon.	£0.3M
11	<b>Lleihau adnoddau gan fod y galw a'r gofyn bellach wedi newid.</b> Mae'r galw ar rai gwasanaethau wedi newid dros y blynyddoedd, ac felly awgrymir lleihau cyllidebau i gyd-fynd â'r galw.	£0.2M

12	<b>Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau.</b> Fe fydd y gyllideb yn parhau i gael ei ddyrannu, ond ni fydd yn derbyn chwyddiant. Cyllidebau yma yn tanwario yn hanesyddol.	£0.3M
13	<b>Arbediad o ganlyniad i broses gaffael</b> e.e. canlyniad tendr diweddar yn rhatach na'r hen gytundeb.	£0.4M
	<b>Cyfanswm</b>	<b>£6.4M</b>

17. O ystyried ein bod yn wynebu bwlch o £12.4M dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn dilyn sefydlu faint o'r bwlch hwn sy'n rhesymol tybio y gallwn ei gyfarch mewn ffyrdd heblaw cyflawni arbedion, gallwn gasglu na fydd y wedd gyntaf yma o arbedion (£6.4M) yn ddigonol i gyfarch yr angen a byddwn angen ail ymweld â gweddill y cynigion a gyflwynwyd gan yr adrannau dros y misoedd nesaf.
18. Ar sail ein rhagdybiaethau ariannol heddiw, mae'n debygol y byddwn yn chwilio am gyfanswm o rhwng £8M ac £8.6M tuag at ein bwlch ariannol o £12.4M. Golyga hyn y byddwn angen darganfod rhwng £1.6M a £2.2M o arbedion ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodiad A cyn i ni osod cyllideb 2024/25. Mae'n debygol y bydd hynny yn ein gwthio i diriogaeth toriadau yn hytrach na'r arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn, a bydd angen mwy o gymorth gan y Pwyllgorau Craffu unigol wrth i ni wynebu'r her anoddach hwnnw.
19. Fodd bynnag, cyn dod i unrhyw gasgliadau ar yr arbedion ychwanegol ar gyfer 2024/25 bydd gennym amser i gynnal ymarferiad blaenoriaethu cyflawn gyda holl Aelodau'r Cyngor a bwriedir cwblhau'r ymarferiad hwn dros y misoedd nesaf. Yn dilyn hynny bydd adroddiad pellach ar gasgliadau'r trafodaethau hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.
20. Fel y bu i mi grybwyll uchod, cyfnod byr iawn oedd ar gael i gyflawni'r cynllun arbedion hwn a bu'n rhaid cywasgu proses aml gam i gyfnod eithriadol o fyr. Rhaid bod yn effro felly i'r ffaith nad oedd amser i ymchwilio i bob cynllun yn drwyadl nac i greu achosion busnes manwl ar eu cyfer. Mae'r Penaethiaid Adran wedi cyflyno'r cynigion gorau oedd posib iddynt eu llunio mewn cyfnod mor fyr ac mae nifer fawr o staff wedi rhoi ymdrech sylweddol i geisio sicrhau fod y cynigion oedd gerbron yr Aelodau yn y gweithdai yn rhai ymarferol a hyfyw.
21. Fodd bynnag, nid yw'n synhwyrol tybio y bydd pob cynllun yn bosib i'w wireddu unwaith y byddwn yn symud ymlaen gyda'r camau gweithredu. Gwyddom hefyd o brofiad y gorffennol y bydd yr arbedion ariannol mewn rhai achosion yn llai na'r hyn y gallwn eu proffwydo ar hyn o bryd.
22. Felly, er mwyn cynllunio'n ddarbodus mae angen i ni gynnwys rhagdybiaeth risg rhesymol yn y Cynllun Arbedion hwn ac felly argymhellaf ein bod yn rhoi £1.6M o'r cyfanswm o £8M-£8.6M y byddwn angen ei ganfod fel swm i'w ddynodi "dan risg".

23. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf.
24. Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Deddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.
25. Cloriannwyd yr oblygiadau ac ardrawiadau yn unol a'r dyletswydd dan y Deddf wrth ddatblygu a blaenoriaethu y cynigion. Mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi ar gyfer y Gyllideb sydd yn cloriannu ardrawiad yr arbedion a argymhellir ac mae wedi ei atodi yn Atodiad 8 o'r adroddiad Cyllideb 2023/24. Mae natur yr ardrawiadau a nodir yn gymharol isel. Cydnabyddir fod rhai cynlluniau yn golygu camau gweithredu pellach fydd yn destun unai asesiadau penodol ynglŷn a'r modd gweithredu. Mae'n fwriad fod yr agweddau yma yn cael eu cadw dan adolygiad cyson wrth symud i wireddu'r cynlluniau penodol.

## **Barn y Swyddogion Statudol:**

### **i. Y Swyddog Monitro:**

Mae'r cynlluniau arbedion arfaethedig yma wedi bod yn destun proses gloriannu manwl. Fel y nodir mae natur y cynlluniau yn cynrychioli arbedion effeithlonrwydd sydd arwain at leihau yr ardrawiad posib. Mae rhai yn ddarostyngedig i ddilyn prosesau cyfreithiol neu asesiadau pellach a cydnabyddir hyn yn y trefniadau risg. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhellion. Mae penderfynu ar y cynllun arbedion yma yn caniatáu i'r Cabinet argymhell y Gyllideb i'r Cyngor Llawn.

### **ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau gywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Mae gwireddu arbedion o'r gwerthoedd a nodir yn hanfodol er mwyn ein galluogi i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Gallaf gadarnhau hefyd bydd disgwyl i ysgolion wireddu arbedion, sy'n ychwanegol i'r cynlluniau a nodir yn yr adroddiad yma.

---

**Atodiadau****Atodiad A:** Cynigion Arbedion 2023/24